pp Mawrth 24.qxp_Layout 1 06/03/2024 11:15 am Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Mawrth 2024 Rhif 497




Siaradwyr Cymraeg – tud 5

tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 7 Hanes Bont-goch
tud 9 AberOpera
tud 12 Anturiwr

# Protest y Ffermwyr

Mae wedi bod yn fis prysur i ffermwyr - cyfnod wyna ac adeg sicrhau bod digon o fwyd i'r ddiadell a'r fuches gan fod y gaeaf hwn wedi bod yn un gwlyb a hir.

Ar ben hyn mae nifer o ffactorau yn gwasgu:

Rheolau *Nitrate Vulnerable Zones* (NVZ) sef rheoliadau ar sut a phryd a ble i wasgaru dom - sy'n creu cur pen oherwydd bod y system yn fiwrocrataidd iawn a lletchwith.

Pryder cyson am sefyllfa Tuberculosis (TB) a'r diffyg datblygiadau i drin y clefyd.

Ar ben hyn i gyd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad tyngedfennol ar ddyfodol amaeth.

Ar ôl gadael y Gymuned Ewropeaidd, mae cyfrifoldeb am amaethyddiaeth wedi dod i Senedd Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £234 miliwn i'r maes ac yn awr yn ymgynghori ar sut y byddant yn gwario'r arian hwnnw – sef y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Un prif ffocws i'r Llywodraeth yw cyrraedd sero net ac un ffordd o wneud hynny, ym marn Llafur Cymru, yw plannu coed: 5000 hectar o goed bob blwyddyn. Er mwyn gallu gwneud hynny bydd angen coed ar 10% o dir fferm er mwyn cael cymhorthdal. Yn ogystal bydd yn rhaid i ffermwyr neilltuo 10% o dir i gefnogi bioamrywiaeth.

parhad tud 3



*Geraint Jenkins yn siarad â'r dorf*




## Y Fferyllfa

Un o'r gwasanaethau pwysicaf ym mhentref Tal-y-bont yw'r Fferyllfa. Daw cwsmeriaid yno o dalgylch eang gan dderbyn gwasanaeth effeithiol a thriniaeth ofalus. Cododd ambell i broblem yn ystod y blynyddoedd diwethaf ag arweiniodd at gau'r Fferyllfa am gyfnod a, gwaetha'r modd, daeth bygythiad unwaith eto y gellid colli'r gwasanaeth.

Deallwn fod y fferyllydd poblogaidd Cerian Screen wedi'i gwahardd am gyfnod gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol oherwydd anghydfod. Mae cwsmeriaid y Fferyllfa wedi mynegi eu pryder wrth y Cyngor gan obeithio y byddai modd sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau.

Yn y cyfamser y newyddion da yw y bydd y Fferyllfa ar agor ond ar hyn o bryd ni wyddom beth fydd y sefyllfa yn y tymor hir.

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon;
John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan*
*Gymdeithas Papur Pawb.*
*Ariennir yn rhannol gan*
*Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG


am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Non a Gerwyn, gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Ebrill fydd Delyth a Bleddyn (huws.henllan@btinternet.com).

Y dyddiad cau yw 5 Ebrill a bydd y papur ar werth ar 12 Ebrill.



"Mae gwleidyddion fel ci clustrwm - rhaid i ti weiddi nerth dy ben cyn gwna nhw wrando!


**Adweitheg**
(Reflexology)
**Bethan Ifan – Aberystwyth**
**07375 422 608**




*Salon Leri*
*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*
*10am-7pm*
*Llun-Gwener*
*(01970) 832 674*


## Anrhegu Non

Cyflwynwyd llestr o flodau i Non Griffiths, Ffwrnais, ar ei hymddeoliad yn ohebydd *Papur Pawb* ar gyfer plwyf Sguborycoed. Bu Non yn casglu newyddion o'r ardal am flynyddoedd lawer ac mae *Papur Pawb* yn ddiolchgar iawn iddi am ei holl wasanaeth. Dymunwn yn dda iddi ar ei hymddeoliad.

Olynydd Non, yw Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais, a diolch iddi am ymgymryd â'r dasg am yr eildro. Cofiwch anfon newyddion ati mewn da bryd. Gellir cysylltu â Lona drwy ebost: lonaacrobyn@btinternet.com neu dros y ffôn: 07507 652092.



DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2024

***Building Connections for the Common Good***

Darlith gan **Yr Athro Virginia Gamba**,
Cynrychiolydd Arbennig Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig dros Blant a Gwrthdaro Arfog

Nos Fawrth, 9fed o Ebrill, 2024
5.30 o'r gloch
yng Nghanolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
CROESO I BAWB!

Canolfan Morlan / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**MAWRTH**

10 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, Enid Gruffudd
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

12 **Cymdeithas y Chwiorydd**
**Rehoboth** 2 'Pawb a'i drysor' (Cyril Evans)

13 **Bethel** 2 Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion
**Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn.** Cyfarfod Blynyddol Anarferol 7 Neuadd Llanfach

15 **Clwb Llyfrau** 2 Yr Ystafell Haearn, Ffwrnais
**Cwis** 8 Wildfowler

16 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr

17 **Bethel** 10 Uno â Seion, Ifan Mason Davies
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

18 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**

20 **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol

23 **Sêl ddillad Cronfa Cae Bach** 11–4 Neuadd Goffa Tal-y-bont

24 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Rehoboth** 2 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

29 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

31 **Bethel** 10 Uno â Seion, Huw Roderick
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**EBRILL**

7 **Bethel** 10 Uno â Seion, John Gwyndaf Richards
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid

9 **Cymdeithas y Chwiorydd**
**Rehoboth** Te prynhawn

**BOB WYTHNOS**
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Anarferol**

yn Neuadd Llanfach, Taliesin
ar nos Fercher, 13 Mawrth
am 7 o'r gloch
I adolygu a chadarnhau dirwyn y Sioe i ben
CROESO I BAWB

pp Mawrth 24.qxp_Layout 1 06/03/2024 11:15 am Page 3

# Pobl a Phethe



*Caoimhe Melangell, Miriam Davies a Martha Cosson*

## Eisteddfod Ysgol Penweddig

Llongyfarchiadau calonnog i gyn-ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont ar eu llwyddiant ar lwyfan Eisteddfod Ysgol Penweddig.
Caoimhe Melangell, Bont-goch: 1af llefaru; 1af monolog; a llefarydd gorau'r Eisteddfod.
Hopcyn Cosson, Dôl Pistyll, Tal-y-bont: 3ydd unawd pres.
Martha Cosson, Dôl Pistyll, Tal-y-bont: 2il monolog; 1af gyda'r grŵp ymgom.
Miriam Davies, Llandre (Tal-y-bont gynt): enillydd Cadair Eisteddfod Ysgol Penweddig.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Gareth Evans, Penrhiw, Bontgoch a'r teulu ar farwolaeth eu dad, John Lloyd Evans, Aberporth.

**Pen-blwydd arbennig**
Pen-blwydd hapus arbennig i Michael Rowlands (Spike), 6 Maes y Felin, Tal-y-bont, sydd wedi cyrraedd oedran ymddeol yn ddiweddar.

**Bore Coffi Elusen**
Mae Jacqui Relph yn cynnal bore coffi, dydd Sadwrn 9 Mawrth yn yr Ystafell Haearn, 10yb tan 12yp ar gyfer ei naid barasiwt er budd ei helusen er cof am Frank ei hŵyr. Croeso cynnes i bawb.

**Perfformwyr Lleol**
Dechrau mis Mawrth, fe gafodd Anwen Howard, Tal-y-bont a Rhian Nelmes, Tre'r-ddôl brofiad arbennig iawn. Bu'r ddwy yn canu gyda chorws Cwmni Opera Canolbarth Cymru yn eu cynhyrchiad diweddar 'Macbeth'. Mae'r cwmni ar daith yn ystod mis Mawrth.

Mae Eleri Morgan, Maesnwydd gynt, wedi derbyn canmoliaeth uchel am ei pherfformiad yn y cyflwyniad 'Ie, Ie, Ie' a gynhyrchwyd gan Gwmni Theatr Cymru ac sy'n teithio'r wlad ar hyn o bryd.

**Gwasanaethau Pasg Eglwys San Mihangel, Eglwys-fach**
Gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith, 29 Mawrth, 9.30 gyda phaned a bynen groes i ddilyn. Sul y Pasg 9.30, Oedfa'r Pasg.

**Marwolaeth**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Haydn Watkin Ellis o Gae Bitffald, Tre'r-ddôl yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Phyllis, Julie a Vicky a gweddill y teulu a'i ffrindiau lawer.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Bev Pritchard, Y Llew Gwyn yn dilyn marwolaeth ei mam, Irene, yn ddiweddar. Cofion at Bev, Gareth, Stacey a Carl a'u teuluoedd yn eu colled.



parhad o dudalen 1

## Protest y Ffermwyr

Gall hyn olygu colli 20% o'u tir cynhyrchiol a fydd, yn ôl ffermwyr, yn achosi problemau difrifol ac yn arwain at lai o fwyd yn cael ei dyfu i'r cyhoedd. Mae rhai ffermwyr yn gweld hyn yn bosibl, mae rhai yn ei weld yn anodd iawn ac eraill yn ei weld yn amhosibl.

Cododd y protestiadau a welwyd yn ddiweddar oherwydd y pen llanw yma o wasgfeydd a ffermwyr yn dweud digon yw digon. Roedd un o'r protestiadau hynny yn Aberystwyth ac un ag ysgogodd y brotest oedd Geraint Jenkins, Cerrig Tarannau a siaradodd o'r galon ar y diwrnod. Roedd cannoedd o ffermwyr yno - hen ac ifanc – ond hefyd yn gynrychiolaeth o'r gymdeithas ehangach sy'n ddibynnol ar fyd amaethyddol llewyrchus a chafwyd protest barchus, ddigynnwrf ond emosiynol a gonest.

Dywed y Llywodraeth ei bod yn gwrando ac y bydd newidiadau i'r cynllun arfaethedig. Cawn weld.
*CMSD*



NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**M** 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

pp Mawrth 24.qxp_Layout 1 06/03/2024 11:15 am Page 4













*Eisteddfod yr Ysgol*



*Llyfrgell Genedlaethol Cymru*



*Gyda'r artist Gwenllian Beynon*



*Ymchwilio i berfedd calon mochyn*



*PC Hannah*

pp Mawrth 24.qxp_Layout 1 06/03/2024 11:15 am Page 5

# Ysgol Tal-y-bont

## Eisteddfod yr Ysgol

Roedd hi'n hyfryd i weld llond neuadd o bobl wedi dod i wylio, cefnogi a gwerthfawrogi doniau'r plant wrth i ni gynnal yr eisteddfod flynyddol ar ddydd Gŵyl Dewi. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth eleni eto ac yn gobeithio fod pawb wedi cael hwyl yn ein cwmni.

Wedi diwrnod llawn o hwyl a chystadlu brwd, Leri aeth â hi eleni eto – da iawn chi. Llongyfarchiadau mawr i Cadi, Mostyn, Freya a Ben am ennill gwobrau unigol ac yn enwedig i Katri am ennill 3 o'r prif wobrau. Roedd beirniad cerdd y gadair yn falch iawn o ymdrechion y beirdd ac am dynnu sylw arbennig at waith y bardd buddugol, sef Blythe. Da iawn ti Blythe, a dyma'r gerdd fuddugol:

## Y Ffair

Neidio lan a lawr,
Ddim yn gallu aros,
Arian yn fy mhoced
Yn gweiddi "Gwario".

Teilo'r fflwff
Ar y tedi uncorn,
A theimlo'r siwgwr
Ar ben y popcorn.

Edrychais rownd
A gweld popeth,
Edrych ar y gwobrau
A gweld tedi anferth.

Rhedais fel y gwynt
At y stondin byrger,
A'r arogl yn arnofio i fyny
At yr awyr.

Mae clustiau yn brifo
Gan y sgrechian swnllyd,
Dychryn plentyn bach
A clown ofnus hefyd.

Mae fy arian yn diflannu
Dro ar ôl tro,
Rwy'n gofyn i mam,
"Ga i fynd to?"

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at ddiwrnod llwyddiannus gan gynnwys Capteiniaid y tai, Alys a Blythe (Ceulan) ac Alaw a Ben (Leri); y beirniaid, Delyth Evans, Elizabeth Evans ac Ann Davies am eu gwaith arbennig, Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan am y gadair a'r gleddyf ac i Mr Morgan a Phwyllgor y Neuadd Goffa am eu cymorth wrth i ni baratoi at y diwrnod. Diolch arbennig hefyd i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rieni am baratoi'r Neuadd ac am drefnu'r lluniaeth ac i Mrs Falyri Jenkins am gyfeilio i'r plant unwaith eto. Diolch o galon i'r staff am eu hymroddiad i'r ysgol ac am hyfforddi'r plant. Braf iawn oedd gweld pob disgybl ar y llwyfan yn cystadlu.

## Eisteddfod yr Urdd

Pob hwyl i Cadi wrth iddi gystadlu gyda chôr yr Adran yn yr Eisteddfod Rhanbarth cyn diwedd y mis.

## Cyngerdd yn y Neuadd Goffa

Roedd hi'n hyfryd i weld criw go lew o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn y Neuadd Goffa dros hanner tymor i godi arian i'r parc lleol. Enw'r noson oedd 'AberOpera yn y Pictiwrs'. Roedd yn noson hwyliog, braf a phawb wedi canmol cyfraniadau'r plant yn fawr – da iawn chi. A diolch yn fawr i'ch rhieni am gefnogi hefyd.

## Ysgol Iach

Diolch o galon i Gronfa Eleri am y nawdd eleni eto. Dymuniad y Cyngor Ysgol a'r staff oedd prynu matiau ioga fel ein bod yn gallu gwneud ein gweithgareddau lles a meddwlgarwch yn gyfforddus yn y neuadd. Byddwch yn falch o wybod eu bod wedi cael defnydd da yn barod.

Diolch yn fawr iawn i PC Hannah Evans am ddod i'r ysgol a siarad gyda ni am effaith cadarnhaol cymryd moddion ac effaith negyddol cymryd cyffuriau. Mae'n siom fawr i ni fel ysgol i ddeall y gallai'r gwasanaeth gwerthfawr yma gael ei dorri oherwydd toriadau mewn cyllid.

Mae Swyddog o'r Urdd a chwmni BMO wedi parhau i gynnal sesiynau i'r plant ar ôl ysgol hefyd. Diolch i Catrin a Bryn am gynnal y gweithgareddau hwyliog.



*Blythe enillydd Cerdd y Gadair*

## Pwyllgor Eco

Un o ddymuniadau cyntaf aelodau'r Pwyllgor Eco oedd sicrhau fod gwastraff bwyd o'r dosbarthiadau'n cael ei ailgylchu'n gywir. Diolch i waith caled aelodau'r pwyllgor, bydd gwastraff ffrwythau yn cael ei ailgylchu'n rheolaidd erbyn hyn – da iawn chi am gofio.

## Gwaith Thema

Mae llawer iawn o waith y mis diwethaf wedi bod yn seiliedig ar ein thema 'Rhwng Dau Glawr'. Er mwyn hybu darllen a diddordeb mewn llyfrau, rydym wedi bod ar daith wythnosol i Lyfrgell y dref yn Aberystwyth. Rydym wedi derbyn croeso cynnes iawn gan y staff ac rydym yn mawr obeithio y bydd ymweld â'r llyfrgell yn drefniant rheolaidd i'n teuluoedd ar ôl hyn.

Ar ben hynny, rydym wedi bod ar ddau ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol. Yn gyntaf aethom i weld arddangosfa o gelf cyfoes Cymru. Enw'r arddangosfa yw Cynefin ac mae'n cynnwys gweithiau gan wahanol artistiaid, gan gynnwys rhai lleol. Buom yn ffodus o gael cydweithio gyda'r artist Gwenllian Beynon i greu monoprint syml o ddewis y plant. Diolch yn fawr i Gwenllian a staff y Llyfrgell am y croeso.

Hefyd, buom yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol i ddysgu mwy am eu ffordd o weithio yno a dysgu am bwysigrwydd rhai o'r llyfrau sydd yn y casgliadau. Rhoddwyd pwyslais ar beth oedd yn cael ei ddefnyddio i greu llawysgrifau cyn papur ac inc a dysgu am bwysigrwydd y wasg argraffu. Dysgwyd hefyd am stori Mari Jones yn cerdded i'r Bala i brynu Beibl fel rhan o'r diwrnod. Dyma ddau ymweliad gwahanol a gwerth chweil.

Un o brofiadau gorau llawer o'r plant hŷn eleni oedd cael agor calon mochyn wrth ddysgu am gylchrediad y gwaed. Er gwaethaf ambell stumog wan, roedd cael cyffwrdd ac ymchwilio wedi atgyfnerthu eu dealltwriaeth o sut mae'r galon yn gweithio fel pwmp i rannu'r gwaed drwy'r corff. Diolch o galon i Rattrays y cigydd am y calonnau ac i Kath a staff Gwyddoniaeth Ysgol Penglais am gael defnyddio'r offer.







*Rhai o siaradwyr Cymraeg y mis*

# Pen-blwydd Hapus CFfI Tal-y-bont yn 70!



*CFfI Tal-y-bont yn dathlu*

Mewn awyrgylch hwyliog, dathlodd Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont ei phen-blwydd yn 70 oed. Ar 24 Chwefror roedd gwesty'r Marine dan ei sang! Roedd y digwyddiad, a fynychwyd gan aelodau presennol a chyn-aelodau, yn daith galonogol o gyfeillgarwch, twf ac atgofion. Roedd yn adlewyrchiad teimladwy ar hanes cyfoethog y sefydliad ac yn dyst i'r effaith barhaol y mae wedi'i chael ar y gymuned.

Elen Pencwm oedd gwraig gwadd y cinio dathlu ac arweiniodd mynychwyr trwy daith o saith degawd mewn cyflwyniad difyr a ffraeth!

Roedd y lleoliad wedi'i addurno gydag arteffactau a memorabilia o wahanol gyfnodau, gan arddangos esblygiad CFfI Tal-y-bont. Roedd ffrogiau, ffotograffau, llyfrau lloffion, ac eitemau eraill yn cael eu harddangos, gan ganiatáu i'r mynychwyr ail-fyw eiliadau a cherrig milltir allweddol taith y clwb.


## Cydlynydd Ecodyfi a Biosffer Dyfi

Ail-hysbysebi swydd ddifyr

**Pwrpas y Swydd:** Arwain datblygiad, adnoddau a chapasiti ecodyfi, fel y gall (mewn partneriaeth ag eraill) gynllunio i sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gwirioneddol i gymuned Bro Ddyfi a Biosffer Dyfi.

**Nodweddion allweddol i gynnwys:** Datblygu a rheoli prosiectau; codi arian; cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg.

**Cytundeb:** Parhaol (37 awr yr wythnos). Ystod £33-37mil yn dibynnu ar sgiliau a phrofiad. Bydd ceisiadau am ran o'r rôl neu i rannu swydd yn cael eu hystyried.

**I wneud cais:** Darllenwch y wybodaeth gefndir ar www.ecodyfi.cymru. Anfonwch CV a llythyr eglurhaol atom yn dangos sut mae eich profiad, gwybodaeth a sgiliau yn ymateb i nodweddion y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb yr Unigolyn.
**Dyddiad cau:** 10yb, Ddydd Iau 4 Ebrill 2024

ecodyfi

Biosffer Dyfi Biosphere
*gwerth y byd - world class by nature*


## Fideo Ymgyrch Diogelwch Ffordd Eglwys-fach a Ffwrnais

Fel rhan o'r ymgyrch hir i wella diogelwch ar y ffordd yn Eglwys-fach a Ffwrnais, mae'r trigolion wedi rhyddhau fideo i dynnu sylw at y peryglon dyddiol sy'n eu hwynebu. Bwriad y ffilm yw ehangu'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol gan wneud peryglon yn fwy gweladwy ac amlwg.

Mae'r fideo yn waith tîm o bobl, gyda diolch arbennig i Anne Marie Carty am y gwaith gwych yn ei gynhyrchu. Gallwch ei wylio ar *YouTube* drwy chwilio am "Eglwysfach" neu wrth ddilyn y ddolen hon https://www.youtube.com/watch?v=m9-htSjxHXU


## Y LLEW GWYN
### Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

**Ar agor bob dydd**
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**
**(Un cwrs / Dau gwrs)**
Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**
**garethwhitelion@outlook.com**

## Hanes Bont-goch

**Henry William Clissold (1861-1941) – ysgolfeistr Elerch a'i deulu**

**Cefndir:**

Adeiladwyd Ysgol Elerch yn 1856, ac fel mai Carys Briddon wedi nodi yn *Ein Canrif* roedd ceisio cynnal ysgol bentref Bont-goch yn dipyn o her a thalcen caled ar adegau. Roedd y plant yn dod o ardal eang, ac roedd absenoldebau yn gyson uchel ac yn peri gofid i athrawon, arolygwyr a ffeiradon fel ei gilydd. Ar ei uchaf bu cyfanswm y plant dros 50 ar un adeg, ond yn dilyn y Rhyfel Mawr a diboblogi enbyd gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y niferoedd. Roedd adroddiadau blynyddol yr arolygwyr yn aml yn feirniadol iawn, ac fel canlyniad nid oedd yr un prifathro yn aros yn hir yn y pentref. Caewyd yr ysgol ar ddiwedd 1958 pan syrthiodd nifer y plant i 7, a'u trosglwyddo i Ysgol Tal-y-bont. Bellach mae'r hen ysgol yn gartref i deulu ifanc lle mae'r plant yn mynychu Ysgol Tal-y-bont.

**Henry William Clissold:**

Un o'r meistri nad arhosodd yn hir iawn oedd Henry William Clissold, ac ef a'i wraig oedd y cyntaf i fyw yn nhŷ pwrpasol y prifathro, sef *Elerch House* (*Hafod Elerch* erbyn hyn). Penodwyd Clissold ar 15 Medi 1884 ac arhosodd yng ngofal Ysgol Elerch tan ei ymddiswyddiad mewn llai na phedair blynedd ar 13 Ebrill 1888. Sais rhonc oedd Clissold ac fe'i taflwyd i gymuned hollol Gymraeg yn syth ar ôl cymhwyso fel athro yng Ngholeg hyfforddi athrawon St. Peter, Saltley, yn ninas Birmingham. Sefydlwyd y Coleg yn 1852 a bu'n cynnwys ysgol a choleg. Yn 1978 daeth y Coleg yn rhan o Brifysgol Aston.

Ganwyd Henry William Clissold yn Claines, Swydd Gaerwrangon (Worcestershire) ar 15 Ionawr 1861. Nodwyd gwaith ei dad, William Clissold (1834-1896) fel *engine fitter.* Roedd ei fam Maria Attwood (1834-1874) yn enedigol o Stourbridge, a phriododd y ddau yn 1859.

Priododd Henry William Clissold ym mis Ebrill 1884 yn Wolverhampton gyda Mary Ann Underwood. Magodd Henry Clissold a'i briod chwech o blant, a ganwyd y tri cyntaf yn *Elerch House*, ac fe'u bedyddiwyd yn Eglwys St. Pedr. Er bod ganddi dri o blant bach bu Mary Ann hefyd yn dysgu ar adegau yn Ysgol Elerch, a hynny'n ddi-dâl. Bu'n rhoi gwersi i'r plant iau mewn darllen, ysgrifennu, addysg ysgrythurol yn ogystal â gwnïo, a hynny i gyd wrth gwrs mewn Saesneg! Ar ôl gadael Elerch yn 1888 penodwyd Clissold i swydd prifathro Ysgol St. Mary's yn Neen Savage, Swydd Amwythig. Oddi yno aeth i Peterchurch, Swydd Henffordd cyn ymddeol i 117, Lea Street, Kidderminster.

**Teulu Henry William Clissold a'i briod Mary Ann:**

Y plentyn hynaf oedd **Ada Marie Clissold** (1885-1965). Ganwyd yn Ionawr 1885 ac fe'i bedyddiwyd yn Eglwys Elerch ar 6 Mai 1885. Ymhen amser gweithiodd fel athrawes gynorthwyol i'w thad yn Ysgol Peterchurch. Bu farw'n ddi-briod yn Ysbyty Blakebrook, Kidderminster ar 13 Gorffennaf 1965 yn 80 oed.



*Hafod Elerch [Elerch House], Bont-goch.*
*Diolch i'm cymydog caredig Neilson Stirling am ddarparu'r llun.*

Yr unig fab oedd **George William Underwood Clissold** (1887-1980). Ganwyd ar 2 Gorffennaf 1887 ac fe'i fedyddiwyd ar 14 Rhagfyr 1887 yn Eglwys Elerch. Priododd Grace Harris Brooke Taylor ym mis Mawrth 1921 yn Leighton Buzzard, Swydd Bedford. Bu farw George ar 6 Ebrill 1980 yn Rhydychen. Bu farw ei briod hefyd yn Rhydychen ar 25 Chwefror 1982. Roedd ganddynt un mab, sef George Henry Neville Clissold (1923-2022), a fu farw ond blwyddyn cyn cyrraedd ei gant oed dwy flynedd yn ôl.

**Caroline Mary Clissold** (1888-1912). Bedyddiwyd yn Eglwys Elerch ar 5 Ebrill 1889. Bu'n gweithio fel athrawes gartrerf (*governess).* Bu farw'n ddi-briod yn Peterchurch, Swydd Henffordd yn Rhagfyr 1912.

**Annie Underwood Clissold** (1891–1975). Ganwyd yn Neen Savage, Swydd Amwythig ar 31 Mawrth 1891. Cofnodwyd ei hoedran yn 5 diwrnod ar gyfrifiad 1891. Priododd George Jackson yn 1925. Bu farw yn wraig weddw yn Dudley ar 20 Mehefin 1975.

**Henrietta Louisa Clissold** (1897-1920). Bu farw'n ddi-briod yn Kidderminster.

**Ymddeoliad:**

Ymddeolodd Henry William Clissold a'i briod i 117, Lea Street, Kidderminster, Swydd Gaerwrangon. Mae'r adeilad bellach yn swyddfa i gwmni o gyfrifyddion. Bu Henry farw ym Mawrth 1947 yn 86 oed. Bu farw ei briod ar 27 Chwefror 1953 yn Stourport-on-Severn, Swydd Gaerwrangon, a hithau'n 94 oed.

*Richard E. Huws*

# Llwyddiant y Beirdd

Llongyfarchiadau i Dîm Talwrn Tal-y-bont ar gyrraedd ail rownd Talwrn y Beirdd 2024 ar ôl trechu tîm yr Arglwydd De Grey yn y gystadleuaeth a ddarlledwyd ar Radio Cymru ym mis Ionawr. Yr aelodau yw Gwenallt Llwyd Ifan, Anwen Pierce, Phil Davies a Phil Thomas. Dymunwn yn dda iddynt yn yr ail rownd a fydd yn cael ei recordio ym mis Ebrill. Dyma i chi flas ar y cynnyrch.

**TRYDARGERDD – Arwydd neu boster mewn ysbyty**

Paid pwyso ar yr arwydd, medd yr arwydd yno'n glir,
Er pwyso oedd yr awydd, a phwyso yno'n hir.
Ni sgwennwyd ar yr arwydd unrhyw neges arall –
Pa bwrpas oedd i'r arwydd, mae'n anodd iawn ei ddeall.
**(PhT)**

**CWPLED – yn cynnwys 'bys'**

O bell, hawdd yw pwyntio bys / at y brwnt o'n tŷ breintus **(AP)**
Os byddi'n bur gysurus / paid mentro i bwyntio bys **(GLLI)**

**LIMRIG – yn cynnwys y llinell**
**'Mae pawb erbyn hyn yn lled amau'**

Mae pawb erbyn hyn yn lled amau
Fod moch yn gwirioni ar berlau.
'Na pam rydwyf heno
Yn barod i fentro
Eich ticlo wrth daflu'n rhai innau.
**(PhD)**

pp Mawrth 24.qxp_Layout 1 06/03/2024 11:15 am Page 8

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**Cronfa Cae Bach**

Mae'r ymgyrch i godi arian ar gyfer adnewyddu Cae Bach yn symud yn ei blaen yn dda. Cynhaliwyd noson wahanol iawn yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ganol mis Chwefror, a hynny yng nghwmni aelodau OperaAber, plant ysgol Tal-y-bont, a'r unawdydd ewffoniwm Gruffydd Siôn. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran ac i'r Lolfa am ei nawdd o £150. Llwyddwyd i godi £535 tuag at y gronfa, sy'n golygu ein bod yn nesáu at £9,000 erbyn hyn.

Y digwyddiad nesaf fydd sêl ddillad yn y Neuadd Goffa ar 23 Mawrth, yn dechrau am 11 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond bydd yna gyfle i brynu paned a chacen a chael clonc. Os oes gennych nwyddau mewn cyflwr da yr hoffech eu cyfrannu – dillad, esgidiau, bagiau llaw, gemwaith, ac ti – mae croeso i chi eu gadael gyda Nia yn Rhiwlan cyn 21 Mawrth. Bydd yna rywbeth at ddant pawb, yn fenywod, yn ddynion ac yn blant.

Mae'r Cyngor wrthi'n llunio cynllun bioamrywiaeth ar gyfer Cae Bach a chae chwarae Bont-goch, a allai gynnwys plannu coed, bylbiau ac amryw blanhigion i ddenu bywyd gwyllt, a chodi plasty pryfed neu ddau, ymhlith pethau eraill. Pan ddaw hi'n amser, rwy'n siŵr y bydd trigolion yr ardal yn hapus i roi help llaw i drawsnewid ein caeau chwarae yn fannau hwylus, prydferth ac ecogyfeillgar i ymweld â nhw. Ar y trywydd hwn, bwriedir cynnal arwerthiant planhigion ym mis Ebrill, felly os cewch chi gyfle, ewch ati i blannu hadau a gwneud toriadau fel bod gennym ddigon o stoc i'w gwerthu! Cewch ragor o fanylion maes o law.

Ac yn olaf am y tro, yn dilyn noson lwyddiannus iawn ym mis Medi, bydd noson bingo arall yn cael ei chynnal ddechrau'r haf – y dyddiad sydd mewn golwg ar hyn o bryd yw 24 Mai, felly cofiwch ei nodi yn eich dyddiaduron.

# Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 13 Chwefror, a chroesawyd y gŵr gwadd am y prynhawn, sef y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan, Tal-y-bont. Bu'n sôn am y dylanwadau a fu arno pan oedd yn ifanc a'r rhai a fu'n ei annog i ddal ati i farddoni. Darllenodd nifer o gerddi o'i gyfrol gyntaf o farddoniaeth, DNA, a'r geiriau ynddynt yn creu darluniau hyfryd o'r testun. Daeth â rhai o'i drysorau i'w dangos inni, sef llythyrau a dderbyniodd i'w longyfarch ar ei gampweithiau eisteddfodol, a'r rheini yn llawysgrifen rhai o'i arwyr megis Gerallt Lloyd Owen, W.J. Gruffydd a John Roderick Rees. Bu'n brynhawn dymunol iawn a diolchwyd yn gynnes iddo gan Meinir Fleming, cyn mwynhau paned wedi ei baratoi gan Non Griffiths gyda chymorth Mona Rowlands.



*Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan*

## Clwb Cant Neuadd Llanfach

**Enillwyr mis Ionawr:**

1. Rhif 68 David South
2. Rhif 53 Bertie Jones
3. Rhif 39 Karen Stacey

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

# Cletwr

Diwrnod oer, ond heulog y bore 'ma, sy'n beth hyfryd ar ôl y glaw di-dor diweddar. Mae ymylon y ffyrdd yn llachar gyda chennin pedr (braidd yn gynnar) felly mae'r gwanwyn bron yma unwaith eto. Ac, o ganlyniad, mae caffi Cletwr yn dechrau llenwi â phobl. Yn fuan bydd ein byrddau allanol yn llawn, gyda chwsmeriaid yn yfed cappuccino ac yn bwyta cacen yn yr haul. Hyfryd!

Ydych chi wedi ymweld â'r caffi yn ddiweddar? Mae'n werth chweil - lle i ymlacio dros baned a darn o fwyd. Brechdan, cawl, caws ar dost a chacen (yn amlwg). Cymerwch olwg ar yr arddangosfa gelf gyfoes. Efallai prynwch lyfr ail law (dim ond £1 yr un!) neu fenthyca llyfr o'r llyfrgell Gymraeg.

Ydych chi'n gwsmer rheolaidd, ymroddedig, ffyddlon i'r siop a'r caffi? Oes gennych chi gyfrif? Mae cyfrifon cwsmeriaid yn eich helpu - nid oes angen arian parod, na cherdyn, gallwch anfon y plant i'r siop heb arian hefyd - ond mae cyfrifon yn help enfawr i Cletwr. Pan ddechreuodd Cletwr fel Siop Cynfelyn dros ddegawd yn ôl, roedd arian yn cael ei roi yn y cyfrifon gan ein darpar gwsmeriaid, ac roedd hynny'n ddigon i ni brynu stoc i agor y siop. Nawr, mae angen yr un peth eto! Er bod Cletwr yn hynod lwyddiannus, ac yn gwneud gwarged (bach), nid ydym eto wedi gwella'n llwyr o effaith y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hynny, bu'n rhaid talu crocbris am drydan y llynedd - dros £11,000 am y chwarter olaf (70c/kWh). Mae gennym bedwar ar ddeg o rewgelloedd ac oergelloedd. Diolch Scottish Power. Mae hyn wedi cael effaith anffodus ar ein llif arian, a dweud y lleiaf. Felly, mae'r arian mewn cyfrifon cwsmeriaid yn help mawr i ni dalu ein cyflenwyr cyn i chi brynu'r nwyddau.

Felly, os ydych YN gwsmer rheolaidd, beth am agor cyfrif, neu ychwanegu ychydig mwy o arian at eich cyfrif? Bydd balans o £50 neu £100 ar gant o gyfrifon yn help mawr i Chloe wrth iddi geisio penderfynu pa filiau i'w talu gyntaf!

Mewn newyddion arall: rydym yn recriwtio eto. Rydym yn chwilio am berson i weithio fel cynorthwy-ydd yn y gegin, yn rhan amser. Mae manylion llawn ar gael ar ein tudalen Facebook.

Mae Cletwr yn ganolfan gymunedol a busnes, fel y gwyddoch. Felly rydyn ni eisiau clywed beth rydych chi eisiau ei weld yn y siop a'r caffi. Unrhyw awgrymiadau? Stoc gwahanol, pethau ychwanegol ar y fwydlen, digwyddiadau? Efallai ailenwi Cletwr fel "The Cardiganshire Experience" gyda'r holl staff yn gwisgo hetiau tal, er mwyn denu mwy o dwristiaid? Sleisen o fara am ddim i bawb sy'n gwario £100? Nid oes unrhyw syniad yn rhy dwp!

Pob hwyl am y tro, mwynhewch yr haul - tra'n eistedd tu allan i Cletwr os yn bosib!



# Colofn Elin



Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi oll. Dwi'n gobeithio gallu ymuno ag ambell i bared Gŵyl Dewi yn y sir, sydd wedi dod yn ddigwyddiadau pwysig yn lleol fel ffordd o ddathlu ein gŵyl genedlaethol.

Mae'r flwyddyn wedi dechrau gyda chyfnod digon heriol i nifer o lefydd gwaith a thrigolion Ceredigion. Fyddwch o bosib wedi clywed am y cyfarfodydd bu i gymaint o ffermwyr fynychu ac yn enwedig y cyfarfod yng Nghaerfyrddin, ble bu i dros 3,000 o ffermwyr gwrdd i leisio eu gofidion. Rwyf innau a Ben Lake AS wedi bod yn trafod y mater gyda'r undebau, ac rydym yn ymwybodol o'r consyrn sydd gan ffermwyr â'r cynllun ffermio cynaliadwy, ac yn deall y pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r undebau i geisio ffeindio'r datrysiadau synhwyrol.

Rydw i hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Llyfrau, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Henebion Cymru i geisio lleihau'r toriad i'w cyllidebau gan Lywodraeth Cymru, fydd yn debygol o arwain at golli swyddi sylweddol. Roedd y newyddion diweddar gan Sensient yn sioc hefyd, gyda'u cyhoeddiad eu bod yn bwriadu tynnu allan o Ddyffryn Aeron fydd yn golygu colled o 100 o swyddi yn Felinfach. Mae'n ergyd fawr i Geredigion, gan gwmni sydd wedi cyflogi yn yr ardal dros gyfnod hir. Daw hyn oll ar gyfnod pan mae pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus, gyda Chyngor Sir Ceredigion yn wynebu her sylweddol i gynnal gwasanaethau hefyd.

Bues i a Ben Lake AS mewn cyfarfod gyda threfnwyr Sioe'r Cardis yn ddiweddar i drafod yr ymgynghoriad ar ddyddiadau gwyliau ysgol a sut fyddai'r Sioe Frenhinol yn cwympo tu fewn i'r tymor ysgol o dan gynigion newydd y Llywodraeth. Rydw i'n llwyr gefnogi trefnwyr y Sioe yn eu hymgais i sicrhau fod y digwyddiad ddim yn cwympo o fewn gwyliau ysgol.

Roeddwn yn falch o gael bod yn rhan o ddigwyddiad mudiad y Ffermwyr Ifanc yn y Senedd wrth iddynt hyrwyddo adroddiad newydd ar bwysigrwydd y mudiad i gefn gwlad. Roedd yn dda gweld aelodau blaenllaw o Geredigion gyda'r Prif Weithredwr Mared Rand Jones yng Nghaerdydd. Roedd hefyd yn bleser cael croesawu plant Ysgolion Penrhyn-coch a Phenllwyn, a Chyngor Ieuenctid Ceredigion i'r Senedd yn ddiweddar. Cadwch yn ddiogel.

# AberOpera yn taro nodyn uchel!



*Aelodau AberOpera yn diddanu*

Daeth selogion a chariadon cerddoriaeth AberOpera at ei gilydd ar 16 Chwefror yn y Neuadd Goffa am noson o alawon operatig hudolus, i gyd ar gyfer achos da. Roedd neuadd y pentref yn atseinio caneuon clasurol wrth i gyfranogwyr a mynychwyr ymgasglu i godi arian ar gyfer Cronfa Cae Bach y plant.

Roedd y digwyddiad, *AberOpera yn y Pictiwrs,* yn arddangos cyfuniad unigryw o berfformiadau operatig a ysbrydolwyd gan sgoriau ffilm eiconig. Aeth y perfformwyr talentog â'r gynulleidfa ar daith drwy hanes sinematig, gan gydblethu hud opera ag atyniad y sgrin arian. Un o uchafbwyntiau'r noson oedd cwis bywiog a gafaelgar oedd â'r gynulleidfa ar gyrion eu seddi.

Prif nod y digwyddiad oedd codi arian ar gyfer gwella cae chwarae'r plant lleol, gan sicrhau bod gan y genhedlaeth iau le diogel a bywiog i chwarae a thyfu. Diolch i haelioni'r gymuned a llwyddiant *AberOpera yn y Pictiwrs,* codwyd swm trawiadol o £535 ar gyfer Cronfa Cae Bach. Heb os, bydd y swm sylweddol hwn yn cael effaith sylweddol ar wella a chynnal a chadw'r maes chwarae, gan ddarparu amgylchedd hyd yn oed yn fwy pleserus a diogel i blant.

Diolchodd y trefnwyr i bawb a fynychodd ac i AberOpera, Y Lolfa, Gruffydd Siôn a phlant Ysgol Tal-y-bont am berfformio a chyfrannu at lwyddiant y digwyddiad.

# Cadwch y dyddiad!

Sêl ddillad, esgidiau a bagiau gyda'r elw yn mynd at gronfa Cae Bach.

Os ydych yn cael *spring clean* ac eisiau gwaredu dillad, esgidiau, bagiau ac ati sydd mewn cyflwr da, beth am eu cyfrannu at sêl ddillad sydd yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 23 Mawrth yn y Neuadd Goffa rhwng 11:00-16:00. Mae Nia yn Rhiwlan yn derbyn ac yn casglu rhoddion tan ddydd Iau, 21 Mawrth.

Galwch draw am fargen a hefyd manteisio ar y cyfle i fynegi eich barn ar ba offer yr hoffech weld yn y cae bach yn y dyfodol.






pp Mawrth 24.qxp_Layout 1 06/03/2024 11:15 am Page 10

# Cyfraniad arbennig Atebol

Mewn seremoni wobrwyo ar 21 Chwefror, derbyniodd Glyn a Gill Saunders Jones, a sefydlodd gwmni Atebol yn Aberystwyth dros ugain mlynedd yn ôl, gwobr Cyfraniad Arbennig gan Gwlwm Cyhoeddwyr Cymru. Daw'r anrhydedd i gydnabod eu brwdfrydedd cyson wrth gynhyrchu llenyddiaeth Gymraeg dros y blynyddoedd. Mae'r anrhydedd yn dyst o'u hangerdd a'u hymrwymiad ym maes addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal.



*Glyn a Gill Saunders Jones gyda Garmon Gruffudd*

Mae gwaith Atebol yn parhau i gael ei ysbrydoli gan weledigaeth wreiddiol Glyn a Gill, sef cynhyrchu adnoddau Cymraeg o'r safon uchaf. Bellach, mae'r cwmni wedi cyhoeddi bron 3,000 o deitlau, ac yn cyflogi dros 40 aelod o staff ledled y wlad. Yn ogystal â chyhoeddi llyfrau, mae Atebol yn cynhyrchu apiau a chynnyrch ar-lein i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.

**Gwireddu breuddwyd**

Dywedodd Glyn Saunders Jones, Cyfarwyddwr Atebol ac enillydd y wobr: "Mae'n fraint ac yn anrhydedd derbyn y wobr arbennig hon. Mae'r daith o sefydlu Atebol wedi bod yn daith o wireddu breuddwyd. Breuddwyd o sefydlu cwmni cyhoeddi yng ngorllewin Cymru gyda nod deublyg iddo, sef sefydlu gwasg flaengar ac arloesol a chreu gwaith i bobl ifanc. A hynny er mwyn creu gwell dyfodol i'r Gymraeg a'i phobl ifanc.

"Gwobr ydy hon i bawb o'r teulu yn ogystal â phawb o 'deulu' Atebol. Diolch o galon i dîm brwdfrydig ac ymroddgar Atebol am fynd yr ail a'r drydedd filltir i wireddu ein breuddwyd. Mae'r gwaith yn parhau. Mae'r nod yr un mor ddisglair ag erioed sef dal ati i arloesi er budd y Gymraeg a'i phobl!"

Mae'r Cwlwm, sydd yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, yn cyflwyno'r wobr yn flynyddol i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad hirdymor i'r byd llyfrau yng Nghymru.

**Arloesi ac arwain y ffordd**

Ychwanegodd Garmon Gruffudd, Cadeirydd Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru, "Mae cyfraniad Glyn a Gill er budd llyfrau Cymraeg wedi bod yn aruthrol. Dros gyfnod maith, gyda'u brwdfrydedd a'u hegni heintus, maent wedi comisiynu a llywio cannoedd o lyfrau drwy'r wasg gan arloesi ac arwain y ffordd mewn nifer o feysydd. Iddyn nhw mae llawer o'r diolch bod yna ddewis mor eang o lyfrau ac adnoddau bywiog a safonol bellach ar gael ar gyfer y to iau yn Gymraeg. Mae'n dda o beth ein bod fel Cwlwm yn gallu cydnabod eu cyfraniad."

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Ar nos Lun, 19 Chwefror ein gwestai oedd Richard Hartnup. Mae Richard wedi ymgartrefu yn Bow Street ers blynyddoedd bellach er mai o Gaint mae'n hanu yn wreiddiol. Astudiodd yn y brifysgol yn Aberystwyth gan arbenigo mewn Gwyddor Pridd a Botaneg. Yma cyfarfu â'i wraig Bethan oedd yn gefn iddo ar y noson. Mae yn awdur llyfr o'r enw *Gold under Bracken* a gyhoeddwyd gan Y Lolfa. Yn y llyfr hwn mae'n cyfuno ei wybodaeth broffesiynol am dir a daear Cymru ynghyd â diddordeb mawr arall sydd ganddo sef cerdded.

Testun ei sgwrs i'r gangen oedd Natur a Thirlun Ceredigion a thrwy gyfrwng ei ffotograffau gwych fe arweiniodd Richard ni ar daith ar hyd arfordir ac afonydd, coedwigoedd a cheunentydd ac ucheldir gogledd Ceredigion. Cawsom gyfle i werthfawrogi a rhyfeddu at y planhigion a'r blodau sydd i'w gweld yn y cynefinoedd o'n cwmpas ynghyd â dysgu mai amrywiaeth yn y pridd sy'n bennaf gyfrifol am yr amrywiaeth hwn. Un peth sy'n sicr yw bod edrych o dan ein traed er mwyn gwerthfawrogi'r cyfoeth sydd o'n cwmpas yr un mor bwysig â sylwi ar y coed a'r llwyni.

Cawsom noson ddifyr ac addysgiadol iawn yng nghwmni Richard a phawb yn gytûn ein bod mor ffodus i fyw mewn ardal mor gyfoethog ac amrywiol o ran tirwedd ac un sydd angen ei gwarchod.

Roedd y noson yng ngofal Trish Huws ac Eirian Evans.

*EE*

## Dwy swydd hanner amser ar gael

**A allech chi arwain agweddau o brosiect 'Tyfu Dyfi - Tyfu'r Economi Bwyd Lleol'?** Mae cysylltiad agos rhwng y swyddi hyn. Byddai ecodyfi yn croesawu ceisiadau ar gyfer y naill swydd neu'r llall, neu gan unigolion sy'n chwilio am un swydd llawn amser.

**Cytundebau:** Misoedd Ebrill-Rhagfyr (18.5 awr yr wythnos). £13,744.64 (£27,489.28 llawn amser)

**I wneud cais:** Darllenwch grynodeb y prosiect a'r Swydd Ddisgrifiad(au) perthnasol ar www.ecodyfi.cymru. Anfonwch CV a llythyr eglurhaol atom yn dangos sut mae eich profiad, gwybodaeth a sgiliau yn ymateb i nodweddion y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb yr Unigolyn, wrth egluro at ba swydd(i) rydych yn ymgeisio.

**Dyddiad cau:** 10yb, Ddydd Iau, 4 Ebrill 2024

## Swyddog Ymgysylltu

**Dyletswyddau i gynnwys:** Adeiladu'r rhwydwaith o fusnesau a sefydliadau sy'n ymwneud â'r system fwyd lleol; Cynnal digwyddiadau; Hyrwyddo'r siop rithwir 'Bwyd Dyfi Hub' a brand 'Blas Dyfi'.

**Nodweddion allweddol i gynnwys:** Profiad o farchnata, trefnu, hyrwyddo a/neu annog cyfranogiad mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol; Dwyieithog; Dealltwriaeth o economïau bwyd lleol cynaliadwy.

## Cydlynydd Cadwyn Gyflenwi

**Dyletswyddau i gynnwys:** Casgliadau a danfoniadau i'r rhwydwaith o sefydliadau sy'n ymwneud â'r system fwyd lleol; Gweithio i gynyddu cyfaint y bwyd a gynhyrchir yn lleol trwy ddefnyddio arferion amaethecolegol.

**Nodweddion allweddol i gynnwys:** Dealltwriaeth o economïau bwyd lleol cynaliadwy; Cyfathrebwr da; Trwydded yrru lân.

ecodyfi
Biosffer Dyfi Biosphere
gwerth y byd - world class by nature

pp Mawrth 24.qxp_Layout 1 06/03/2024 11:15 am Page 11

# Chwaraeon a Hamdden

# Hanner canmlwyddiant



*Ar adegau dros y blynyddoedd bu gan Glwb Pêl-droed Tal-y-bont ail dîm, gan gynnwys y tîm hwn ag enillodd bencampwriaeth Ail Adran Cynghrair Aberystwyth a'r cylch yn 2017.*

## Dyma sut y disgrifiodd gohebydd chwaraeon *Papur Pawb* lwyddiant y tîm:




'Roedd y tri sy'n gyfrifol am redeg ail dîm pêl-droed Tal-y-bont, Des Roberts, Evan Rowlands ac Ows Jones, ar bigau drain wedi'r fuddugoliaeth yn erbyn Llanilar ddechrau Mai gan fod y ddau dîm arall a oedd yn cystadlu am bencampwriaeth Ail Adran y Cynghrair yn chwarae ei gilydd ddeugain milltir i ffwrdd ar yr un noson. Petai yntau Eilyddion Dolgellau neu drydydd tîm Prifysgol Aberystwyth yn ennill, yna fe fyddai gobeithion Tal-y-bont o gipio'r bencampwriaeth yn deilchion. Y gobaith oedd y byddai'r sgôr yn gyfartal ar ddiwedd y gêm yn Nolgellau. Gwaetha'r modd, er i Evan ffonio clwb Dolgellau droeon, ni chafwyd ateb. Dim ond yn hwyrach yn y nos clywyd mai 2-2 oedd y sgôr ac felly Tal-y-bont fyddai'r pencampwyr. Mawr bu'r dathlu y noson honno ac ar nos Iau 18 Mai pan gyflwynwyd y darian i'r tîm.' (*Papur Pawb* Mehefin 2017)










# Chwaraeon a Hamdden

## Alan yr Anturiwr Tanddaearol

Un o fois Tal-y-bont yw'r aml-dalentog Alan Tansey. Rhai o'r meysydd y mae'n disgleirio ynddynt yw fel artist, abseiliwr a physgotwr. Mae hyn yn deillio o'i gariad gydol oes at ei gynefin a'r ardal lle cafodd ei fagu gyda'r cyfleoedd a roddodd iddo fel anturiwr ifanc.

Tra bydd darllenwyr *Papur Pawb* yn falch iawn, yn werthfawrogol ac yn mwynhau'r ardal ysblennydd yr ydym yn byw ynddi, mae Alan wedi mynd â hyn gam ymhellach! Mae wedi mynd ati i dreiddio'n ddwfn i'r isfol danddaearol gan archwilio byd a fydd yn ddieithr i'r mwyafrif llethol ohonom!

Mae Alan wedi datblygu partneriaeth agos iawn ag arbenigwr mwyngloddio arall sydd â chysylltiadau agos â Thal-y-bont, sef Ioan Lord, ar ei anturiaethau tanddaearol. Mewn cyfweliad diweddar mae Alan yn adrodd hanes sut mae rhywbeth hwyliog a wnaeth fel hobi wedi datblygu i fod yn sail i broffil byd-eang ar gyfryngau cymdeithasol gyda rhaglen deledu ar y ffordd!

"Cefais fy magu yn Nhal-y-bont, cymuned mwyngloddio metel fechan yng Ngheredigion gyda dwsinau o fwyngloddiau segur o'm cwmpas ac roedd gen i ddiddordeb mawr ynddynt, gyda chwilfrydedd yn fy arwain i a'm ffrindiau i mewn iddynt i archwilio gyda golau lamp beic yn eu harddegau ifanc.

Fy niddordeb i oedd anturio o dan y ddaear a gweld beth allai fod yn cuddio ynddo, a ysgogodd ddiddordeb gydol oes yn hanes y mwyngloddiau a gwerthfawrogiad o'r arteffactau a'r dyddiau a fu.

Wrth i mi fynd ychydig yn hŷn, cymerais saib o'r archwilio tra roeddwn yn dilyn gwaith mewn swyddi amrywiol, gan gynnwys gweithiwr fferm, gweithiwr coedwigaeth a thechnegydd amlosgfa! Roedd gen i deulu ifanc hefyd ac roedd bywyd yn brysur. Er hynny, roeddwn yn gweld eisiau archwilio dan ddaear, ac yn 35 oed dechreuais fynd yn ôl i'r mwyngloddiau, gan ailymweld â'r ceuffyrdd yn Nhal-y-bont a chwilio'n helaethach am byrth a siafftiau yn ardal Cymystwyth.

Tua chwe blynedd yn ôl y cyfarfu Ioan a minnau o'r diwedd. Fe wnaeth cyfarfod ar hap â chyd-archwiliwr roi Ioan a minnau mewn cysylltiad â'n gilydd. Roeddwn i wedi bod yn gweithio i ddraenio a chloddio cloddfa oedd dan ddŵr ac estynnais at Ioan i weld a oedd ganddo unrhyw wybodaeth amdano. Roedd ei ymateb yn syth a brwdfrydig. Roedd ein cyfeillgarwch wedi'i sefydlu, ac ar ôl ychydig o sgwrsio yn ôl ac ymlaen fe wnaethom gyfarfod i archwilio mwynglawdd gyda'n gilydd. Hwn fyddai'r cyntaf o lawer. Roedd gen i sianel *YouTube* fach yr oeddwn wedi bod yn ei defnyddio i gofnodi fy hobi uwchben y ddaear o ganfod metel. Ar ôl ychydig o deithiau o dan y ddaear daeth yn amlwg i mi y dylem fod yn ffilmio'r hyn yr oeddem yn ei wneud a'i rannu â phobl na fyddent yn cyrraedd a gweld y byd cudd hwn fel arall. Ac felly ganwyd *Lost Mines* y sianel *YouTube* ac mae wedi parhau i dyfu ei chynulleidfa flwyddyn ar ôl blwyddyn.



*Alan a Lois Tansey*

Rwy'n chwilio am safleoedd mwyngloddio newydd posibl ar hen fapiau ac ar droed. Gyda fy nghysylltiadau ffermio rwy'n ceisio caniatâd tirfeddianwyr a chymorth i gael mynediad i'r mwyngloddiau cyn mynd i mewn iddynt. Mae darganfyddiadau gwych yn gyffrous, ond mae'n bwysig paratoi'n dda a bod yn ofalus bob amser, gyda fy ofn o uchder yn ffactor gyrru mawr yn hynny!

Byddwn yn dweud fy mod yn cŵl a chadw'n mhen ac yn gwneud yr holl ffilmio a golygu ar gyfer *Lost Mines.* Mae llawer o bobl yn adnabod fy llais ac yn dweud bod ganddo nodyn tawelu iddo. Ar hyn o bryd mae Ioan a minnau yn gweithio tuag at agor tri mwynglawdd yn arbennig na chawsant fynediad iddynt ers dros gan mlynedd, ac sy'n cynnwys llawer iawn o weithfeydd i'w harolygu a'u dogfennu. Efallai eu bod yn llawn o arteffactau, a fydd yn ein galluogi i ddysgu cymaint mwy am y mwyngloddiau hyn a'r bobl a fu unwaith yn gweithio ynddynt.

Mae pob un o'r mwyngloddiau y byddaf yn eu harchwilio naill ai'n fwyngloddiau metelifferaidd, hynny yw plwm, arian, sinc a chopr neu chwareli llechi. Mae'r mwyngloddiau metelifferaidd yn cyfrif am o leiaf 90% o'r hyn yr ydym yn ei archwilio ac yn dyddio'n bennaf o'r 18fed a'r 19eg ganrif, ond mae nifer yr ydym wedi'u canfod yn dyddio'n ôl mor bell â'r Oes Rufeinig! Mae *Lost Mines* yn ymwneud â'n hangerdd am ran o hanes sy'n prysur gael ei cholli. Yn anffodus, mae rhai o'r mwyngloddiau yr wyf wedi mynd i mewn iddynt a'u dogfennu eisoes wedi dod yn anhygyrch, ac mae eu hanes bellach wedi'i gladdu gyda nhw.

Y bennod gyffrous nesaf yn fy archwiliad yw fy rhan mewn rhaglen ddogfen sydd i'w ffilmio y gwanwyn hwn ar gyfer teledu prif ffrwd. Bydd y rhaglen ddogfen hon yn amlygu'r hyn yr ydym wedi'i ddatgelu yn *Lost Mines* ac yn cynnwys ffilm o fwynglawdd lleol nas gwelwyd ers y diwrnod y gadawodd y mwyngloddwyr ar eu diwrnod olaf yno. Mae amseroedd cyffrous o'n blaenau, ac ni allaf aros i weld beth ddaw yn y bennod nesaf."

Mae Alan a'i wraig Lois, sy'n ymuno ag Alan ar ei deithiau tanddaearol yn ogystal â gweithgareddau eraill fel canfod metel, wedi ymgartrefu yng Ngherrig Mawr, Tal-y-bont. Mae Alan yn gweithio ar fferm Maesnewydd a bydd Lois yn wyneb cyfeillgar cyfarwydd i lawer o ddarllenwyr *Papur Pawb* gan ei bod wedi gweithio yng Nghanolfan Arddio Newmans, Capel Dewi ers blynyddoedd lawer.

Hyfryd gweld bachgen lleol yn rhoi proffil byd-eang cadarnhaol i'r ardal a'i hanes a rhannu cyfrinachau'r oes a fu, a fyddai fel arall yn cael ei golli, trwy ddefnyddio technoleg fodern. Pob lwc i chi Alan a Lois! Daliwch ati i ddarganfod a rhannu'r profiadau hynod gyffrous hyn er mwyn i'r gweddill ohonom allu eu mwynhau o hafan ddiogel ein soffas!

Os hoffech chi ddarganfod mwy am anturiaethau Alan, ymwelwch â *Lost Mines* ar *YouTube:* https://www.youtube.com/c/LostMines

*GJ*

**RHYBUDD AC YMWADIAD:** Dim ond y rhai sydd â'r profiad, y wybodaeth a'r cit cywir ddylai ystyried mentro o dan y ddaear.

